



## Carwsél tywydd

**1** I ddechrau'r wers, cyflwynwch eich grŵp i'r testun adrodd tywydd trwy drefnu gweithgaredd carwsél gyda phedair gorsaf ar wahân (gallwch ddefnyddio'r enghreifftiau a ddarperir ar sleid 2) fel a ganlyn iddynt eu harchwilio:

- Gorsaf 1 – offer meteorolegol e.e. ceiliog y gwynt, thermomedr, baromedr
- Gorsaf 2 – dillad tywydd e.e. ymbarél, cot law, eli haul, sgarff
- Gorsaf 3 – rhagolygon tywydd e.e. adroddiadau tywydd ar-lein, toriadau papur newydd, clipiau YouTube
- Gorsaf 4 – y tywydd e.e. disgrifiadau o wynt, tywydd poeth, eira

**2** Unwaith y bydd grwpiau wedi archwilio pob gorsaf, dewch â'u sylw yn ôl i'r blaen a gofynnwch y cwestiynau canlynol:

- Beth yw pwrpas y gwrthrychau / delweddu hyn? (Llywiwch y drafodaeth tuag at ragfynegiadau tywydd)
- Pam mae rhagolygon tywydd yn bwysig?



15 munud



Gwaith grwp



Sleidiau cyflwyniad carwsél tywydd



Ffilm rhagfynegi chwalu ffeithiau

- Ble rydym ni'n gweld neu'n clywed rhagolygon tywydd? (Llywiwch y drafodaeth tuag at ragolygon tywydd ar y teledu, ar-lein, yn y papur lleol)
- Sut gall rhagolygon y tywydd rydym yn eu darllen neu'n eu clywed ein helpu i wneud dewisiadau? Wnaeth e eich helpu i wneud rhai dewisiadau heddiw? (E.e. efallai ei fod wedi eu helpu i benderfynu beth i'w wisgo'r diwrnod hwnnw, ai pacio ymbarél ar gyfer yr ysgol, ai cael lifft neu gerdded, ac ati)
- Ydych chi'n ymddiried yn yr wybodaeth mewn rhagolygon tywydd? Beth yw'r rheswm dros eich ateb?
- Pam fyddai stori sydd ddim yn wir neu sydd wedi'i seilio ar y gwirionedd ond sy'n cael ei gor-ddweud yn cael ei chyhoeddi? (E.e. i wneud i stori deimlo'n fwy cyffrous a dramatig, i gael llawer o bobl i ddarllen yr erthygl honno.) A allai hyn hefyd fod yn wir am storïau tywydd a welwn?

**3** Eglurwch fod rhagolygon tywydd yn caniatáu i feteorolegwyr roi gwybodaeth i ni i'n helpu ni i wneud dewisiadau a pharatoi ar gyfer gwahanol amodau tywydd, ond mae hyn ond yn gywir os yw'r rhagolygon yn cael eu hadrodd yn gywir. Hyd yn oed os yw rhagolwg neu erthygl yn ymddangos fel ei fod yn defnyddio'r ffeithiau, bydd rhai ffynonellau yn cyhoeddi erthyglau sydd 'yn estyn y gwirionedd', neu weithiau hyd yn oed ddim yn wir, er mwyn cael rhagor o bobl i ddarllen y stori. Dangoswch y pwynt hwn trwy chwarae'r ffilm **rhagfynegi chwalu ffeithiau**

**4** Gofynnwch i bawb beth all canlyniadau hyn fod, gan ddefnyddio'r pwyntiau a godwyd yn y ffilm fel ysbrydoliaeth (e.e. os yw pobl yn cael eu hysbysu'n anghywir neu'n cael 'darlun ffug' o sut gallai'r tywydd fod, efallai na fyddant yn gwybod y ffordd gywir i baratoi eu hunain). Hefyd, cofiwch ystyried pa effaith mae hyn yn ei chael ar bobl sy'n darllen storïau gan ffynonellau sydd, yn eu barn nhw, yn ffynhonnell awdurdodol, ond sy'n ffynhonnell lai dibynadwy mewn gwirionedd. Mae hyn yn golygu efallai na fydd pobl yn credu sefydliadau dibynadwy pan fyddant yn cyhoeddi rhybuddion tywydd go iawn